

Dadlau

Pecyn gweithgareddau uwchradd

Beth sydd yn y pecyn?

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys syniadau a gweithgareddau i ddatblygu sgiliau dadlau eich myfyrwyr, a'u helpu i strwythuro'n dda trwy ddadleuon ar gyfer dadlau ffurfiol.

Mae'n cynnwys:

- Dadleuon cyflym
- Datblygu sgiliau dadlau
- Camau ffurfiol dadl
- Fframwaith cynllunio
- Llywio dadl
- Geirfa



Dadl gyflym: Pleidleisiwch gyda'ch traed

Gwnewch i'ch dosbarth symud gyda'r gweithgaredd penderfynu cyflym hwn.

Dynodwch un ochr o'r ystafell ddosbarth yn 'O Blaid' a'r llall 'Yn Erbyn' – mae hyn yn debyg i'r broses 'rhannu' sy'n cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Cyhoeddwch bob cynnig (gan ychwanegu unrhyw beth perthnasol i'ch grŵp/ardal) a gofynnwch i'r myfyrwyr symud i ochr yr ystafell maent yn cytuno â hi. Gallech wedyn ofyn i rai myfyrwyr gyfiawnhau eu penderfyniad cyflym.

Ni ddylai neb o dan 16 oed gael defnyddio cyfryngau cymdeithasol	Dylai fod yn anghyfreithlon i beidio â gwisgo helmed wrth seiclo.
Dylai gwisg ysgol fod yn orfodol ym mhob ysgol.	Dylid gwahardd perchnogaeth breifat o geir.
Dylai fod rhaid i chi lwyddo mewn prawf er mwyn cael bod yn berchen ar gi.	Dylai archfarchnadoedd roi'r gorau i ddefnyddio pecynnu plastig ar gyfer eu holl gynnyrch.
Dylai pawb dros 16 oed allu pleidleisio mewn etholiadau seneddol.	Dylai fod rhaid i archfarchnadoedd gau trwy'r dydd ar ddydd Sul.



Dadl gyflym: Beth sydd yn y newyddion?

Gwnewch i'ch fyfyrwyr feddwl am faterion cyfoes lleol a chenedlaethol.

Rhannwch fyfyrwyr i grwpiau o 3-4 a rhowch gopi o bapur newydd i bob grŵp. Rhowch 5 munud i'r grwpiau ddewis 3 stori o'r papur sy'n codi pynciau da i'w trafod ac adnabod y cwestiwn mae'r storiâu'n codi.

Dylai'r grwpiau wedyn ddewis un o'r cwestiynau hyn a chael 5 munud i wneud tabl o ddadleuon 'o blaid' ac 'yn erbyn', cyn penderfynu ar un ochr fel grŵp.

Caniatewch 5-10 munud i ymateb, gan annog myfyrwyr i feddwl am y dulliau a ddefnyddion nhw i wneud y penderfyniad terfynol – wnaethon nhw bleidleisio, ac os felly, oedd hynny'n gyfrinachol? Wnaethon nhw benderfyniad ar hap (fel taflu darn o arian)? Gwahoddwch y myfyrwyr i ystyried goblygiadau'r dulliau hyn.

Dadl gyflym: Sylwadau bachog

Anogwch eich myfyrwyr i ystyried eu dewis o eiriau'n ofalus.

Mae sylwadau bachog yn ymadroddion byr bachog sy'n gofiadwy ac yn trosglwyddo neges. Efallai y byddech yn hoffi defnyddio enghreifftiau diweddar, perthnasol o newyddion cyfredol i esbonio'r cysyniad hwn.

Gan weithio'n unigol neu mewn grwpiau gofynnwch i'r myfyrwyr greu sylw bachog ar gyfer pwnc neu fater mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Atgoffwch y myfyrwyr y dylai sylw bachog:

- Fod yn fyr a hawdd i'w gofio
- Rhoi hanfod eich neges
- Cymell ymateb gan y gynulleidfa

Anogwch y myfyrwyr i brofi eu sylw bachog yn uchel gan ei bod yn bwysig bod yr ymadroddion yn swnio'n dda yn ogystal ag edrych yn dda ar bapur.

Rheol 3, 9, 27

Mae pobl broffesiynol sy'n ceisio trosglwyddo neges yn defnyddio'r **rheol 3, 9, 27** i greu sylwadau bachog. Mae'r rhain yn wych ar gyfer agor dadleuon.

Y rheol yw y dylai sylw bachog:

- Ymdrin â 3 phrif bwynt
- Cymryd 9 eiliad i'w ddweud
- Cynnwys dim mwy na 27 gair

Enghraifft 'Mae merched yn cael eu tangynrychioli yn y Senedd; mae hanner y boblogaeth yn cynnwys merched ond mae llawer mwy o ASau gwrywaidd. Mae cydraddoldeb yn bwysig: mae angen gweithredoedd arnom nid geiriau!'

Datblygu sgiliau dadlau

Dangoswch ddadleuon o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi i'r myfyrwyr fel enghreifftiau o ddadlau ffurfiol. Mae dadleuon byw a diweddar i'w gweld ar www.parliamentlive.tv neu glipiau byrrach i'w gweld ar sianel YouTube Senedd y DU.

Trafodwch:

- Arddull, rheolau a iaith y dadl
- Rôl y Llefarydd yn Nhŷ'r Cyffredin neu'r Arglwydd Llefarydd yn Nhŷ'r Arglwyddi
- Y technegau a ddefnyddir gan y rhai sy'n siarad

Darbwyllwch fi

Mae'r gweithgaredd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu hyder yn siarad mewn grwpiau bach, wrth baratoi ar gyfer cynulleidfaoedd mwy.

Sefyllfa:

Dylai myfyrwyr fod mewn grwpiau o 5 neu 7. Ym mhob grŵp dynodwch un neu ddau siaradwr 'o blaid' ac 'yn erbyn', gan sicrhau bod o leiaf 3 o 'benderfynwyr'.

Dylech hefyd ddewis pwnc am dadl. Efallai yr hoffech ddewis 2 neu 3 phwnc os hoffech ymgorffori amser ymchwil, fel y gall pob myfyriwr fod 'o blaid' neu 'yn erbyn' rhywbeth.

Y dasg:

Rhowch amser i'r myfyrwyr baratoi. Os ydych yn ceisio annog meddwl cyflym gallai hyn fod am ychydig o funudau, neu gallech ganiatáu amser am ymchwil mewn grwpiau gydag eraill yn dadlau'r un peth.

Gan ddychwelyd at y grwpiau gwreiddiol, dylai myfyrwyr wneud datganiadau byr gan ddadlau o blaid neu yn erbyn eu pwnc, gyda phleidlais yn dilyn ymhlith y grŵp.

Gallai hyn gael ei droi'n gystadleuaeth dosbarth wrth gymharu canlyniadau pob grŵp ymchwil.

Dadl balŵn

Mae'r gêm dadlau hon yn gyflwyniad hwyliog i siarad argyhoeddiadol a phleidleisio.

Sefyllfa:

Mae'r holl siaradwyr mewn basged balŵn sy'n colli uchder – bydd angen i siaradwr gael ei daflu allan o'r faged er mwyn i'r gweddill aros yn ddiogel!

Dewiswch 5 myfyriwr i weithredu fel y siaradwyr. Rhowch gymeriad i bob un ohonynt – gallai'r rhain fod yn ddychmygol, yn bobl enwog, neu hyd yn oed eu hunain.

Y dasg:

Mae'n rhaid i bob Siaradwr wneud datganiad un funud gan esbonio pam y dylent aros yn y balŵn. Mae'r gynulleidfa wedyn yn pleidleisio dros y sawl yr hoffent weld yn cael ei daflu allan o'r faged.

Ailadroddwch y broses hon hyd bod un unigolyn yn unig ar ôl yn y faged: dyma'r enillydd.

Cynhaliwch ddadl ffurfiol

Defnyddiwch y canllaw cam wrth gam hwn i gynnal dadl yn arddull Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r ddadl yn dechrau

Yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'r Llefarydd yn dechrau'r ddadl wrth ddweud 'Order, order'

Mae'r cynnig ar gyfer y ddadl yn cael ei roi ger bron y Tŷ

Dylai'r araith hon roi arolwg o'r cwestiwn a pham ei fod yn bwysig.

Mae'r Llefarydd yn cyhoeddi'r cwestiwn

Y cwestiwn o'n blaenau yw...' Gofyn i'r Aelod sy'n gwrthwynebu siarad.

Mae'r Aelod sy'n gwrthwynebu'r cynnig yn siarad

Dylai'r araith hon roi arolwg o'r prif ddadleuon yn erbyn y cynnig.

Mae siaradwyr eraill yn rhoi areithiau

Mae'r Llefarydd yn gwahodd siaradwyr eraill i wneud areithiau, gan sicrhau cydbwysedd rhwng siaradwyr 'o blaid' ac 'yn erbyn'

Datganiadau cloi

Mae Aelod ar bob ochr yn crynhoi'r dadleuon cryfaf

Mae'r Llefarydd yn cyhoeddi'r cwestiwn a'r bleidlais

Yn y Senedd, mae pleidleisiau yn cael eu cynnal trwy 'raniadau' lle mae'n rhaid i aelodau symud i ochrau cyferbyniol y siambr.

Mae'r 'rhifwyr' yn cyfrif y nifer o bobl sy'n pleidleisio bob ffordd ac yn dweud wrth y llefarydd.

Mae'r Llefarydd yn cyhoeddi'r canlyniad

Paratoi am ddadl

Fframwaith cynllunio

Cynnig

Ydych chi'n dadlau o blaid neu yn erbyn y cynnig?

Rwy'n dadlau bod...

Eich rhagymadrodd

Ydych chi'n dadlau o blaid neu yn erbyn y cynnig? Rhowch 2 brif reswm am eich barn.

1.

2.

Datblygu eich dadl

Rhowch eich dadleuon cefnogol

Rhestrwch eich ffeithiau a'ch tystiolaeth

Paratoi am ddadl

Fframwaith cynllunio

Cadw cofnod

Defnyddiwch yr adran hon i gadw cofnod o'r prif ddadleuon a roddir i chi gan yr wrthblaid.
Sut allwch eu hateb?

Datblygu eich crynodeb

Defnyddiwch yr adran hon i ddatblygu datganiad cloi cryf

I gloi, gadewch i mi bwysleisio bod...

Rwyf wedi cyflwyno tystiolaeth glir bod...

Rwyf wedi gwrando ar farn y gwrthwynebydd. Rwy'n cytuno bod...
Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod...

Yn olaf, rwy'n eich annog i'm cefnogi oherwydd...

Llywio dadl

Os ydych chi'n llywio dadl, mae eich rôl fel y Llefarydd yn Nhŷ'r Cyffredin neu'r Arglwydd Lefarydd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Eich gwaith yw sicrhau bod y ddadl yn deg, ar y pwnc a bod ystod o safbwyntiau'n cael eu mynegi yn yr amser a ganiateir.

Arhoswch ar y pwnc

I'ch helpu i wneud hyn:

- Sicrhewch fod y cynnig ar gyfer y ddadl yn glir a phenodol
- Ymchwiliwch i'r pwnc eich hun fel bod gennych arolwg o beth allai gael ei ddweud. Os yw'r dadleuwyr yn symud oddi ar y trywydd, ymyrrwch cyn gynted â phosibl.
- Byddwch yn wybodus am bwy sydd ar ba ochr: dysgwch am bwy fydd yn cynnig (cyflwyno) ac yn gwrthwynebu (amddiffyn yn erbyn) y cynnig. Bydd hyn yn eich helpu i ddewis pwy i siarad

Byddwch yn wybodus am y rheolau

- Mae'n well cadw'r rheolau mor syml â phosibl, gallwch benderfynu arnynt fel grŵp cyn i chi ddechrau.
- Cytunwch pa mor hir y bydd y ddadl yn parhau a pha mor hir y gall pob unigolyn siarad.
- Penderfynwch sut y dylai dadleuwyr ddangos yr hoffent siarad. Yn Nhŷ'r Cyffredin, mae ASau yn codi i gael sylw'r Llefarydd.
- Pan fo angen i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin annerch yr holl ASau, mae'n dweud 'Order!'. Beth fyddwch chi'n ei ddweud?

Byddwch yn deg

Eich gwaith yw sicrhau bod y ddadl mor deg â phosibl, felly mae angen i chi fod yn ddiuedd wrth beidio â dangos beth yw eich barn eich hun. Meddyliwch hefyd am:

- Ddewis siaradwyr sydd â safbwyntiau gwahanol – gallech hyd yn oed ofyn i'r dadleuwyr grwpio'u hunain 'o blaid' ac 'yn erbyn' i'ch helpu i ddewis yn gyfartal.
- Heriwch unrhyw iaith sy'n amhriodol, pwyntiau sydd oddi ar y pwnc neu bobl yn siarad allan o'u tro.

GEIRFA

Ymatal	Dewis peidio â phleidleisio dros y naill ochr na'r llall.
Dadl	Datganiad neu reswm o blaid neu yn erbyn.
Dadl	Dadl ffurfiol gyda rheolau wedi'u cytuno ar bwnc penodol. Fel arfer mae gan ddadl ffordd o benderfynu pa ochr o'r ddadl sydd wedi ennill, megis pleidlais.
Cwestiwn Llwythog	Cwestiwn wedi'i gynllunio i faglu gwrthwynebydd yn y ddadl oherwydd bod ganddo ystod gyfyngedig o ymatebion. Er enghraifft pan ofynnir, 'Ai dyma'r tro cyntaf i chi gyfansoddi'r ffeithiau?', bydd gan ateb 'ie' neu 'na' oblygiadau negyddol.
Llywydd	Yr unigolyn sy'n sicrhau bod y ddadl yn cael ei chynnal yn deg a bod y rheolau yn cael eu cadw. Yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, mae'r llywydd yn cael ei adnabod fel y Llefarydd.
Cynnig	Mae'r cwestiwn mae'r ddadl yn ei drafod yn cael ei adnabod fel 'cynnig', neu weithiau fel 'penderfyniad'.
Gwrthwynebydd	Rhywun sy'n siarad yn erbyn y cynnig.
Cynigydd	Yr unigolyn sy'n cyflwyno pwnc y ddadl.
Gwrthateb	Ateb dadleuon gwrthwynebydd, gan ddangos pam y credwch eu bod yn anghywir.
Eilydd	Rhywun sy'n cefnogi'r cynigydd neu'r gwrthwynebydd.
Strategaeth	Cynllunio i roi'r cyfle gorau i'ch hunan i ennill y ddadl. Er enghraifft, bod â ffeithiau'n barod i ateb her ac ystyried o flaen llaw y dadleuon y gallai'r gwrthwynebydd eu defnyddio.
Crynodeb	Rhoi prif bwynt eich dadl ar ddiwedd y ddadl mewn dull cryno a chlir.
Pleidlais	System lle mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y ddadl yn dewis pa ochr maent yn cefnogi.